

Bil yr Amgylchedd – Papur Gwyn

“Mae angen fframwaith deddfwriaethol modern sy’n cydnabod gwerth ein cyfoeth naturiol a’r gwasanaethau y mae’n eu darparu, a’r angen i ni ei reoli’n ofalus er budd hirdymor Cymru.”

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, Hydref 2013



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Pam mae angen Bil?

Mae angen fframwaith deddfwriaethol modern a fydd yn sicrhau dull cydgysylltiedig o reoli ein hadnoddau naturiol, yn ogystal â chydabod ei werth a’r cyfleoedd mae’n eu darparu.

Dangosodd ein hymgynghoriad yn 2010 a **Phapur Gwyrdd Cynnal Cymru Fyw** yn 2012 gefnogaeth eang i’r dull newydd hwn o gynllunio a rheoli adnoddau naturiol yng Nghymru ar lefel genedlaethol a lleol.

Yn gyffredinol, rydym eisiau defnyddio a rheoli adnoddau naturiol Cymru i sicrhau buddion economaidd a chymdeithasol parhaol, yn ogystal â rhai amgylcheddol. Rydym hefyd eisiau dileu cymhlethdod diangen a symleiddio prosesau.

Beth fydd y Bil yn ei wneud?

Mae pedair prif thema yn y Papur Gwyn:

- Mae **Thema 1** yn edrych ar gydgyssylltu’r fframweithiau statudol presennol ar gyfer cynllunio a rheoli adnoddau naturiol yng Nghymru.
- Mae **Thema 2** yn ystyried cynigion i sicrhau bod gan Gyfoeth Naturiol Cymru’r dulliau deddfwriaethol iawn i’w galluogi i weithredu dull cydgysylltiedig o reoli adnoddau naturiol.
- Mae **Thema 3** yn nodi camau i sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o adnoddau naturiol Cymru ac i leihau gwastraff.
- Mae **Thema 4** yn nodi cynigion i symleiddio a chysoni’r gyfraith ynghylch nifer o drefniadau rheoleiddio amgylcheddol presennol a’i gwneud yn fwy clir.

Beth ydyn ni eisiau ei gyflawni?

Mae yna gydnabyddiaeth ryngwladol bod angen dull mwy cydgysylltiedig o reoli ein hadnoddau naturiol, sy’n cydnabod yn well werth ein hecosystemau a’r gwasanaethau y maent yn eu darparu, er mwyn helpu i sicrhau twf cynaliadwy hirdymor, cydnerthedd ac amrywiaeth ac effeithlonrwydd adnoddau, ac i drechu tlodi.

Ar gyfer busnesau a’r economi

Bydd y cynigion ar gyfer dull rheoli adnoddau naturiol ar sail ardal yn helpu i sicrhau bod gennym y wybodaeth iawn yn gynharach fel y gallwn adnabod y cyfleoedd datblygu iawn yn y manau iawn sy’n cefnogi ein huchelgeisiau ar gyfer twf hirdymor. Bydd y Bil hefyd yn helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio i sicrhau’r buddion hirdymor mwyaf posibl o’n hadnoddau naturiol.

Ar gyfer cymunedau ac i drechu tlodi

Bydd y cynigion ar gyfer dull ar sail ardal yn sicrhau bod gennym y wybodaeth iawn am yr heriau a’r cyfleoedd mewn ardaloedd gwahanol. Bydd y dystiolaeth hon yn helpu i lywio penderfyniadau ynghylch sut y gallwn wella ein hamgylchedd i’n cymunedau, ac i dargedu buddsoddiad yn well.

Edrych ymlaen

I gael mwy o wybodaeth ewch i: <http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/environment-bill-white-paper/?lang=cy>

Gydag ymholiadau am yr ymgynghoriad, ac i gyflwyno ymatebion, e-bostiwch: naturalresourcemanagement@wales.gsi.gov.uk

Mae’r ymgynghoriad ar Fil yr Amgylchedd - Papur Gwyn yn cau ar 15^{fed} Ionawr 2014.